

Adroddiad Blynyddol Cyngor Tref Caerfyrddin

Blwyddyn Ddinesig 2019-20

Cyflwyniad

Amlinelliad o'r Cyngor	<p>Mae Cyngor Tref Caerfyrddin yn gwasanaethu ardal Caerfyrddin a'i phoblogaeth o tua 14,600 o drigolion. Mae yna 18 o gynghorwyr, yn cynrychioli wardiau Gogledd, De a Gorllewin Caerfyrddin.</p> <p>Y Cynghorwyr Tref yn ystod y cyfnod 2019/20 oedd:</p> <table data-bbox="779 625 1693 944"><tr><td>Jeff Thomas (Maer)</td><td>Angharad Jones-Leefe</td></tr><tr><td>Gareth John (Dirprwy Faer)</td><td>Alun Lenny</td></tr><tr><td>Miriam Moules (Siryf)</td><td>Arwel Lloyd</td></tr><tr><td>Julia Ault</td><td>Ken Lloyd</td></tr><tr><td>Danny Bartley</td><td>Dr Ioan Matthews</td></tr><tr><td>Parch. Tom Defis</td><td>Emlyn Schiavone</td></tr><tr><td>Dr Baba Gana</td><td>Dr Matthew Thomas</td></tr><tr><td>Phil Grice</td><td>Wyn Thomas</td></tr><tr><td>Peter Hughes Griffiths</td><td>Barry Williams</td></tr></table> <p>Mae'r Cyngor Tref yn cyflogi 18 aelod o staff llawn a rhan amser, a Chlerc y Cyngor Tref yw Alun Harries.</p> <p>Mae Cyngor Tref Caerfyrddin yn gyfrifol am nifer o wasanaethau yn y dref, gan gynnwys:</p> <ul data-bbox="779 1168 2072 1375" style="list-style-type: none">• Parc Caerfyrddin, gan gynnwys y siop de, y felodrom a'r cae rygbi;• Parciau cyhoeddus eraill yng Nghaerfyrddin gan gynnwys Parc Tre Ioan, Parc Penllwyn, Parc Hinds, yr ardaloedd chwarae yn Nheras Russell, Maes y Wennol ac Allt Ioan;• Mwyafrif o lwybrau troed y dref;• Neuadd Ddinesig San Pedr;• Mynwent Caerfyrddin;	Jeff Thomas (Maer)	Angharad Jones-Leefe	Gareth John (Dirprwy Faer)	Alun Lenny	Miriam Moules (Siryf)	Arwel Lloyd	Julia Ault	Ken Lloyd	Danny Bartley	Dr Ioan Matthews	Parch. Tom Defis	Emlyn Schiavone	Dr Baba Gana	Dr Matthew Thomas	Phil Grice	Wyn Thomas	Peter Hughes Griffiths	Barry Williams
Jeff Thomas (Maer)	Angharad Jones-Leefe																		
Gareth John (Dirprwy Faer)	Alun Lenny																		
Miriam Moules (Siryf)	Arwel Lloyd																		
Julia Ault	Ken Lloyd																		
Danny Bartley	Dr Ioan Matthews																		
Parch. Tom Defis	Emlyn Schiavone																		
Dr Baba Gana	Dr Matthew Thomas																		
Phil Grice	Wyn Thomas																		
Peter Hughes Griffiths	Barry Williams																		

	<ul style="list-style-type: none"> • Goleuadau troedffyrdd ar draws y dref; • Digwyddiadau a gweithgareddau yn cynnwys cynnau goleuadau Nadolig a pharêd y ceirw, Gwobrau Chwaraeon Tref Caerfyrddin, Rasys y Maer ar Wyl y Banc mis Mai a dathliadau Dydd Gŵyl Dewi yng nghanol y dref; • Gweithgareddau a digwyddiadau a gynhaliwyd ym Mharc Caerfyrddin trwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys rhaglen eang o adloniant ar hyd yr haf a'r Wyl Aeaf; • Cynllun basgedi crog y dref ac arddangosfeydd blodau eraill; • Darparu grantiau ariannol a chymorth arall i sefydliadau lleol ac achosion da. <p>Ers 2018 mae Cyngor Tref Caerfyrddin wedi ei gydnabod gan Un Llais Cymru am ei safon uchel o wasanaeth a pherfformiad mewn nifer o feysydd, fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Prosiect Treftadaeth Gorau (Ailddatblygu Felodrom Caerfyrddin) – Enillydd • Menter Cynladwyedd Orau (Cynllun Grantiau Fferm Solar Red Court) – Enillydd • Prosiect Amgylcheddol Gorau (Cynllun Grantiau Fferm Solar Red Court) – Enillydd • Menter Twristiaeth Orau (Gweithgareddau Taith Prydain) – Enillydd • Menter Ymgysylltu a'r Gymuned Orau (defnyddio cyfryngau cymdeithasol) – Canmoliaeth Uchel • Gwasanaeth Cyngor Lleol Orau (Siop De Caerfyrddin a Rhaglen Digwyddiadau'r Haf) – Canmoliaeth • Adroddiad Blynyddol Gorau – Canmoliaeth Uchel
<p>Beth yw Gweledigaeth/Amcanion y Cyngor?</p>	<p>Mabwysiadodd Cyngor Tref Caerfyrddin y strategaeth pum mlynedd ganlynol yn 2017:</p> <p><u>Strategaeth</u> 'Gwella lles pobl Caerfyrddin a bod yn uchelgeisiol yn darparu gwasanaeth rhagorol a gwerth am arian'</p> <p><u>Cynllun</u></p> <ol style="list-style-type: none"> 1. I ddatblygu strategaeth a chynllun am y cyfnod 2017-2022; 2. I ymgysylltu'n eang â'r cymunedau amrywiol yng Nghaerfyrddin a nodi blaenoriaeth o'r ymgysylltu a'r ymgynghori cyhoeddus hwnnw; 3. I greu strategaeth ymgysylltu ac ymgynghori i gefnogi 2 uchod; 4. Adnabod ffyrdd effeithiol o ymgysylltu â chenedlaethau iau a chreu cyfleodd er mwyn i lais y bobl ifanc cael eu clywed a'u galluogi i ddylanwadu ar benderfyniadau'r Cyngor; 5. Hyrwyddo a gwella lles Caerfyrddin a'i phobl ac ymateb fel bo angen i ofynion Cynllun Llesiant Sir Gâr; 6. Ystyried perthnasedd 'Cynllun Cymunedol' a 'Chynllun Lle' ar gyfer tref Caerfyrddin;

	<p>7. Bod mor effeithlon â phosibl wrth ddarparu'r gwasanaeth orau bosibl i bobl tref Caerfyrddin a'r rhai sy'n ymweld â'r ardal;</p> <p>8. Gweithio'n agos gyda chynghorau tref a chymuned gyfagos eraill;</p> <p>9. Parhau i weithio gyda chynghorau tref a chymuned gyfagos eraill.</p>
--	--

CRYNODEB ARIANNOL 2019/20

Praesept y Cyngor yw prif ffynhonnell incwm y Cyngor ac yn cynrychioli swm y dreth cyngor a delir gan aelwydydd yng Nghaerfyrddin sydd yn cael ei dyrannu i'r Cyngor Tref. Cododd y praesept blynyddol (£133.10 fesul aelwyd Band D) gyfanswm o £727,617.75 i'r Cyngor Tref yn ystod 2019/20 (nid yw'r Cyngor Tref yn derbyn unrhyw beth oddi wrth dreth busnesau). Derbyniodd hefyd incwm arall o £185,435 yn bennaf o ddarparu ei wasanaethau (e.e. Mynwent Caerfyrddin, pryniadau o'r Siop De ym Mharc Caerfyrddin, hurio'r felodrom a'r cae rygbi) a grantiau allanol.

Gwariant y Cyngor yn ystod 2019/20 oedd:

Prosiectau Cyfalaf (gweler isod) - 189,500	Mynwent a Depo - 159,783
Digwyddiadau Canol y Dref - 33,900	Parciau ac Ardaloedd Chwarae - 152,496
Grantiau - 10,500	Neuadd Ddinesig San Pedr - 61,868
Gwariant Dinesig - 24,150	Basgedi Crog - 10,290
Goleuadau Street (troedffordd) - 30,000	Gweinyddiaeth Gyffredinol - 277,175
Trafnidiaeth - 22,498	Gwariant eraill - 9,260

Mae'r Cyngor yn cadw **cronfa wrth gefn** o £100,000 ar gyfer cyfyngau a thaliadau brys anrhagweledig.

Roedd gwariant ar **brosiectau cyfalaf** yn ystod 2019/20 yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd, gyda nifer o brosiectau cyfalaf arfaethedig wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn: Roedd rhain yn cynnwys:

- Datblygu'r ardal chwarae ac offer ym Mharc Caerfyrddin - £100,000
- Gwellu'r cynhwysedd cyflenwi trydan ym Mharc Caerfyrddin - £38,000
- Prynu tractor newydd i'r Tîm Cynnal a Chadw Tiroedd
- Caffaeliad o gadair esgyn yn Neuadd Ddinesig San Pedr - £16,000

Cynnydd yn erbyn Amcanion Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin

Amcanion Llesiant BGC Sir Gaerfyrddin	Camau a gymerwyd gan y Cyngor Tref/Cymuned sydd yn cyfrannu tuag at yr Amcan Llesiant	Sut mae'r 5 Ffordd o Weithio wedi'u defnyddio i lunio eich gweithgaredd? (Crynodeb yn Atodiad A)	Pa Nodau Llesiant cenedlaethol mae'r gwaith hwn yn ei gefnogi? (Crynodeb yn Atodiad B)
<p>Arferion Iach: Mae gan bobl ansawdd bywyd da, ac yn gwneud dewisiadau iach ynglŷn â'u bywydau a'u hamgylchedd</p>	<p>1 Parciau Cyhoeddus ac Ardaloedd Chwarae</p>	<p>Mae'r Cyngor yn rheoli sawl parc cyhoeddus, ac y mae'r rhain yn gyfleusterau cymunedol pwysig y mae'r Cyngor yn eu defnyddio i hyrwyddo iechyd a ffitrwydd a gwella llesiant ffisegol a synnwyr emosiynol pobl.</p> <p>Mae yna offer chwarae ac offer arall ym mhob un o barciau cyhoeddus y Cyngor, ac mae'r prif barc yn Lôn Morfa yn darparu lle ac offer ar gyfer pob cenedlaeth. Yn 2019 fe wnaeth y cyngor weithredu raglen o welliannau ym mhob un o'r parciau ac ardaloedd chwarae hyn, ac yn ystod Mawrth 2020 fe gwblhawyd buddsoddiad o £100,000 mewn offer chwarae newydd a chynhwysol ym Mharc Caerfyrddin. Mae offer chwarae cynhwysol hefyd wedi ei gyflwyno ym Mharc Tre Ioan.</p>	<p>Cymru Ffyniannus Cymru Iachach Cymunedau Cydlynol Cymru Fwy Cyfartal</p>
	<p>2 Felodrom Caerfyrddin</p>	<p>Mae Felodrom Caerfyrddin yn cael ei reoli gan y Cyngor Tref a ganddo strategaeth i ymgysylltu gyda seiclwyr a chlybiau lleol, a gweithio ledled Cymru i wella iechyd, lles a chreu fwy o gyfleoedd allanol ar gyfer seiclwyr elitaidd a newyddian. Drwy annog cystadlaethau i ein Felodrom o lefelau lleol a chenedlaethol, byddwn yn parhau i ddarparu'r platform hwn at bob grŵp. Yn ystod 2019 cynhaliwyd cam cyntaf Taith y Merched (o Brydain Fawr) yn Felodrom Caerfyrddin a ddenodd y digwyddiad rhyngwladol hwn ddiddordeb i'r cystadleuwyr a chyfryngau o bob cwr o'r byd.</p>	<p>Cymru Iachach Cymunedau Cydlynol</p>

	3 Rygbi Caerfyrddin	Mae prif gae rygbi ym Mharc Caerfyrddin yn gartref I Clwb Rygbi Cwms Caerfyrddin, un o dimau blaenllaw Uwch Gynghrair Cymru. Mae'r cae yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd gan dimau eraill hefyd gan gynnwys Bechgyn Ysgolion Cylch Sir Gaerfyrddin.	Cymru Iachach Cymunedau Cydlynol
	4 Pêl-droed Caerfyrddin	Yn 2019 derbyniodd y Cyngor y trosglwyddiad o gae pêl-droed Parc Myrddin oddi wrth y Cyngor Sir ac mae'r cyfleuster bellach yn cael ei rannu gan ddau glwb pêl-droed lleol a oedd mewn perygl o ddod i ben oherwydd nad oedd unrhyw le arall gyda nhw i chwarae.	Cymru Iachach Cymunedau Cydlynol
	5 Neuadd Ddinesig San Pedr	Mae Neuadd Ddinesig San Pedr yn un o'r lleoliadau cymunedol allweddol yng Nghaerfyrddin a all gymryd dros 300 o bobl a hefyd darparu cyfleusterau ystafell bwyllgor. Mae'n cael ei ddefnyddio am ystod ehangach o ddigwyddiadau cymunedol gan gynnwys eisteddfodau, cyngherddau, gwyliau cwrw, partiön preifat a digwyddiadau chwaraeon. Yn ystod 2019 dychwelodd bocsi cystadleuol i'r Neuadd, ac mae Twrnaint Dartiau Agored Caerfyrddin blynyddol yn parhau i fod yn un o ddigwyddiadau cymdeithasol allweddol ar y calendr cymdeithasol blynyddol.	Cymunedau Cydlynol Diwylliant Bywiog ac Iaith Gymraeg Ffyniannus
	6 Is-grŵp Amgylcheddol Sian Johnston a Strategaeth Datblygu Bioamrywiaeth ac Amgylcheddol Cyngor y Dref	Yn 2018 fe fabwysiadodd y Cyngor Tref Strategaeth Datblygu Bioamrywiaeth ac Amgylcheddol sydd yn anelu at hyrwyddo a gwella'r amgylchedd naturiol a hyrwyddo cynaliadwyedd tymor hir ar hyd ystâd y Cyngor yng Nghaerfyrddin. Mae Is-grŵp Amgylcheddol Sian Johnston yn rheoli'r ymateb gweithredol i'r strategaeth ar ran y Cyngor.	Cymru Ffyniannus Cymru Hydwyth Cymunedau Cydlynol Cymru Gyfrifol Fyd-eang
	7 Grantiau Fferm Solar Red Court	Mae Cynllun Grant Fferm Parc Solar Red Court yn darparu grantiau i fyny at £500.00 ar gyfer prosiectau lleol sydd yn hyrwyddo cynaliadwyedd ac yn annog pobl i feddwl am syniadau sydd o fudd tymor hir i Gaerfyrddin a thu hwnt. Mae nifer fawr o sefydliadau ac ysgolion lleol wedi elwa o'r grantiau hyn dros y blynyddoedd, ac felly yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at wella'r amgylchedd lleol.	Cymru Ffyniannus Cymru Hydwyth Cymru Iachach Cymru Gyfrifol Fyd-eang
	8 Cadw Cymru'n Daclus	Yn ystod 2019 fe ddaeth swyddfeydd y Cyngor yn hwb casglu sbwriel dynodedig ar gyfer Cadw Cymru'n Daclus. Mae hyn yn galluogi unigolion a grwpiau i fenthg offer casglu sbwriel ar gyfer prosiectau sbwriel. Darperir grantiau i gefnogi grwpiau casglu sbwriel. Mae'r Cyngor yn aelod o 'Pride in your Patch' Sir Gaerfyrddin.	Cymunedau Cydlynol Cymru Gyfrifol Fyd-eang Cymru Hydwyth

Amcanion Llesiant BGC Sir Gaerfyrddin	Camau a gymerwyd gan y Cyngor Tref/Cymuned sydd yn cyfrannu tuag at yr Amcan Llesiant	Sut mae'r 5 Ffordd o Weithio wedi'u defnyddio i lunio eich gweithgaredd? (Crynodeb yn Atodiad A)	Pa Nodau Llesiant cenedlaethol mae'r gwaith hwn yn ei gefnogi? (Crynodeb yn Atodiad B)
Ymyrraeth Gynnar: Gwneud yn siŵr bod pobl yn cael y cymorth cywir ar yr amser iawn; yn ôl eu hangen.	1 Cynllun Grantiau	Mae Cynllun Grantiau'r Cyngor yn galluogi sefydliadau a chymdeithasau lleol i geisio am ac elwa o gyllid tuag at wahanol brosiectau a mentrau.	Cymru Ffyniannus Cymru Fwy Cyfartal Diwylliant Bywiog ac Iaith Gymraeg Ffyniannus
	2 Rôl y Swyddog Llesiant Cymunedol a Digwyddiadau	Mae Swyddog Llesiant Cymunedol a Digwyddiadau'r Cyngor yn gweithredu fel cyswllt allweddol rhwng cymunedau lleol yn y dref. Ynghyd a darparu cefnogaeth ac arweiniad mae'r swyddog yn gweithredu fel hwylusydd rhwng y sefydliadau a all elwa wrtho a helpu ei gilydd.	Cymru Iachach Cymunedau Cydlynol Diwylliant Bywiog ac Iaith Gymraeg Ffyniannus
	3. Cynghorwyr Tref	Mae'r Cynghorwyr mewn cysylltiad rheolaidd gyda'u cymunedau lleol ac yn gynrychiolwyr y Cyngor Dref ar lawer o sefydliad lleol. Maent yn gallu cael gwybodaeth a deallusrwydd cymunedol mewn modd amserol sydd yn galluogi problemau ymddangos a materion posibl cael eu hadnabod a'u trin yn gyflym.	Cymunedau Cydlynol
	4. Coronafeiws	Ym mis Mawrth 2020 ddechreuodd pandemig Covid 19 gael effaith fawr ar y gymuned leol (a chenedlaethol), ac fe sefydlodd y Cyngor Tref strwythur ar unwaith i sicrhau bod pobl leol yn medru cyrchu gymaint o wybodaeth a chymorth â phosibl. Cafodd gwefan y Cyngor Tref ei ail-strwytho a chrëwyd platform cyfryngau cymdeithasol ar gyfer hyn - cafodd Gofal Cymunedol Caerfyrddin ei greu ar Facebook i hwyluso rhediad y wybodaeth. Crëwyd cysylltiadau rhwng nifer o sefydliadau lleol a chenedlaethol, a chyfathrebwyd gwybodaeth hanfodol i bawb. Crëwyd rhwydwaith gwirfoddol, a chofrestrodd nifer o bobl leol i edrych ar ôl ac i ofalu am bobl fregus o fewn y gymuned leol a thu hwnt.	Cymunedau Cydlynol Cymru Iachach

Amcanion Llesiant BGC Sir Gaerfyrddin	Camau a gymerwyd gan y Cyngor Tref/Cymuned sydd yn cyfrannu tuag at yr Amcan Llesiant	Sut mae'r 5 Ffordd o Weithio wedi'u defnyddio i lunio eich gweithgaredd? (Crynodeb yn Atodiad A)	Pa Nodau Llesiant cenedlaethol mae'r gwaith hwn yn ei gefnogi? (Crynodeb yn Atodiad B)
<p>Cysylltiadau Cryf:</p> <p>Pobl, lleoedd a sefydliadau sydd a chysylltiadau cryf sydd yn medru addasu i newid</p>	<p>1 Rhannu Gwybodaeth</p>	<p>Mae'r Cyngor Tref yn gweithredu fel ffynhonnell hanfodol a chyfathrebwr gwybodaeth ar hyd y dref, ac mae ei lwyfannau cyfryngau cymdeithasol wedi'u datblygu i fod yn ganolbwynt cymunedol rhithwir yn hyn. Defnyddir rhain i gyfleu negeseuon allweddol i'r gymuned i hybu iechyd a llesiant a hefyd i dynnu sylw at y nifer o ddigwyddiadau a gweithgareddau sydd yn cymryd lle yn y gymuned leol, a thrwy hynny yn creu cyfleodd i bobl i ddod at ei gilydd.</p> <p>Wrth ochr y chwe cyngor lleol arall o fewn y sir, mae'r Cyngor Tref yn aelod o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin ac yn cyfrannu at waith y Bwrdd trwy'r grŵp gweithredol a'r Bwrdd ei hun.</p>	<p>Cymru Fwy Cyfartal Cymunedau Cydlynol Diwylliant Bywiog ac Iaith Gymraeg Ffyniannus</p>
	<p>2 Ysgolion, Colegau a Grwpiau a Sefydliadau Cymunedol eraill</p>	<p>Mae gan Gyngor Tref Caerfyrddin gysylltiadau cryf gydag ysgolion a cholegau lleol, ac yn ystod Mis Mawrth 2020 roedd Cynhadledd Hinsawdd i Blant Tref Caerfyrddin gyntaf erioed wedi cael ei threfnu yn Neuadd Ddinesig San Pedr. Roedd dros ddwsin o ysgolion a sefydliadau eraill fod i gymryd rhan. Oherwydd pandemig Covid 19 bu'n rhaid i'r gynhadledd gael ei gohirio, ond fe fydd yn cael ei chynnal yn gynnar yn 2021.</p> <p>Mae cysylltiadau da wedi datblygu gyda Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, sydd yn darparu addysg uwch i dros fil o bobl ifanc ac oedolion yng Nghaerfyrddin. Yn ystod 2019/20 bu dau fyfyrwr o'r Brifysgol yn gweithio ar secondiad gyda'r Cyngor Tref i helpu ffurfio cynlluniau ar gyfer Cynhadledd Hinsawdd i Blant Caerfyrddin y Cyngor.</p> <p>Gofynnwyd i swyddogion i annerch myfyrwyr yr Ysgol Fusnes am waith y Cyngor Tref er mwyn codi ymwybyddiaeth o waith y Cyngor a'r broses ddemocrataidd leol.</p> <p>Mae'r Cyngor yn parhau i ryngweithio gyda nifer cynyddol o grwpiau cymunedol i hwyluso buddion cymunedol ac i rannu gwybodaeth a fydd o gymorth i ddarparu cyfeiriad i waith y Cyngor.</p>	<p>Cymunedau Cydlynol Cymru Fwy Cyfartal Cymru Ffyniannus Cymru Hydwyth Cymru Iachach Cymru Gyfrifol Fyd-eang</p>

		Yn ystod y flwyddyn bu'r Cyngor yn gweithio mewn Partneriaeth gyda Dr M'z (sefydliad i bobl ifanc) a Phartneriaeth Dros 50+ Caerfyrddin ar y Prosiect 'Bites and Bytes' lle bu pobl ifanc a chenedlaethau hŷn yn dod at ei gilydd mewn ffordd a oedd o fudd i bawb.	
	3 WiFi Tref Am Ddim	Mae'r Cyngor Tref (mewn cydweithrediad â'i bartneriaid yn y Cyngor Sir) wedi buddsoddi mewn darparu WiFi am ddim yn y dref. Wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen, bwriedir darparu gwybodaeth a fydd yn rhoi gwybodaeth ac yn dylanwadu ar benderfyniadau strategol eraill ar unwaith a hir dymor.	Cymru Ffyniannus Cymunedau Cydlynol Diwylliant Bywiog ac Iaith Gymraeg Ffyniannus
	4 Rôl Ddinesig	Yn ystod y flwyddyn fe gyflenwodd y Maer a deiliaid rôl ddinesig eraill nifer fawr o ymrwymadau ac ymweliadau cymunedol, ac roedd rhain yn aml yn cynhyrchu cyfnewid gwybodaeth a fyddai'n hyrwyddo gwaith y Cyngor Tref a hefyd yn rhoi'r cyfle i'r Maer i fwydo gwybodaeth yn ôl i'r Cyngor er mwyn iddo ystyried fel rhan o'i raglen waith yn y dyfodol. Cyfrannodd y Maer dros £4,000 tuag at elusennau ac achosion da eraill yn ystod y flwyddyn.	Cymunedau Cydlynol Diwylliant Bywiog ac Iaith Gymraeg Ffyniannus
	5 Gwobrau Chwaraeon Blynyddol	Cynhaliodd y Cyngor Tref ei ddathliad Gwobrau Chwaraeon blynyddol ym mis Ionawr 2020. Mae'r digwyddiad hwn yn cydnabod cyflawniadau chwaraeon unigolion, timau, clybiau a chymdeithasau ar hyd y dref.	Cymunedau Cydlynol Cymru Iachach
	6 Gwobrau Caerfyrddin yn eu Blodau blynyddol	Cynhaliodd y Cyngor Tref ei Noson Gwobrwyo flynyddol. Roedd hyn yn cydnabod gwaith pobl leol wrth gyfrannu tuag at ymddangosiad ffisegol ac esthetig y dref ac mae hefyd yn gyfle i'r Cyngor gydnabod a gwobrwyo yn ffurfiol gwaith gwahanol unigolion ac elusennol, gwirfoddol a sefydliadau eraill. Gyda'i gilydd, mae pawb yn gweithio er lles y gymuned leol - ac yn gwneud Caerfyrddin yn le gwell i bawb.	Cymunedau Cydlynol Cymru Hydwyth

Amcanion Llesiant BGC Sir Gaerfyrddin	Camau a gymerwyd gan y Cyngor Tref/Cymuned sydd yn cyfrannu tuag at yr Amcan Llesiant	Sut mae'r 5 Ffordd o Weithio wedi'u defnyddio i lunio eich gweithgaredd? (Crynodeb yn Atodiad A)	Pa Nodau Llesiant cenedlaethol mae'r gwaith hwn yn ei gefnogi? (Crynodeb yn Atodiad B)
Pobl a Lleoedd Ffyniannus: Uchafu cyfleoedd i bobl a lleoedd mewn rhannau trefol a gwledig ein sir	1 Digwyddiadau Blynyddol	<p>Mae gan Gyngor Tref Caerfyrddin rhaglen flynyddol o ddigwyddiadau allweddol sydd o gymorth i hyrwyddo llesiant pobl a chymunedau lleol : Mae rhain yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwobrau Chwaraeon Cyngor Tref Caerfyrddin • Gweithgareddau a Digwyddiadau Wythnos Gŵyl Dewi, gan gynnwys Parêd Mawrth 1af • Pythefnos Masnach Deg • Ras y Maer • Seremoni Sefydlu'r Maer a Gwasanaeth Dinesig • Rhaglen Digwyddiadau Haf Parc Caerfyrddin • Gŵyl yr Afon • Gŵyl Canol Tref • Diwrnod Heddwch y Byd • Noson Gwobrwyo flynyddol Caerfyrddin yn eu Blodau • Arddangosfa Tân Gwyllt • Gweithgareddau blynyddol Dydd y Cofio • Cynnau Goleuadau Nadolig a Pharêd y Ceirw • Gŵyl Aeaf 	<p>Cymru Ffyniannus Cymru Hydwyth Cymru Iachach Cymru Fwy Cyfartal Cymunedau Cydlynol Diwylliant Bywiog ac Iaith Gymraeg Ffyniannus</p>
	2 Fforwm Adfywio Caerfyrddin	<p>Grŵp o nifer o randdeiliad sydd yn gyfrifol am ddatblygiad economaidd y dref ac sydd yn cael ei reoli gan y Cyngor Sir yw Fforwm Adfywio Caerfyrddin. Yn ystod y flwyddyn Maer Caerfyrddin oedd yn ei gadeirio. Mae nifer o gynghorwyr eraill a swyddogion yn aelodau o'r Fforwm a'i amryw is-grwpiau, i gyd yn cyd-weithio i wella ffyniant dyfodol Caerfyrddin.</p>	<p>Cymru Ffyniannus</p>

	<p>3 Rôl y Cyngorwyr</p>	<p>Mae aelodau etholedig yn cynrychioli'r Cyngor ar nifer o gyrff allanol gan gynnwys cyrff llywodraethu ysgolion, y Siambr Fasnach, Cyngor Iechyd Cymunedol, Menter Gorllewin Myrddin ac Oriol Myrddin. Maent yn adrodd yn ôl i'r Cyngor yn rheolaidd ar eu gwaith gyda'r sefydliadau hynny.</p> <p>Mae yna gydbwysedd da o gynghorwyr tref sydd hefyd yn cynrychioli'r Cyngor Sir, a thrwy hynny yn hwyluso'r llif o wybodaeth rhwng y ddau awdurdod ac yn helpu i greu perthynas waith effeithiol.</p>	<p>Cymunedau Cydlynol Cymru Fwy Cyfartal Cymru Hydwyth</p>
	<p>4 Swyddog Llesiant Cymunedol a Digwyddiadau</p>	<p>Mae Cyngor Tref Caerfyrddin wedi apwyntio swyddog Llesiant Cymunedol a Digwyddiadau llawn amser. Un o'u hamcanion yw gweithredu fel pwynt cyswllt a chyfathrebiad allweddol rhwng y Cyngor Tref a'r nifer o wahanol sefydliadau sydd yn cyfrannu tuag at les pobl leol.</p>	<p>Cymunedau Cydlynol</p>
	<p>5 Cefnogi'r Economi Leol</p>	<p>Mae gan Gyngor Tref Caerfyrddin bolisi o ddefnyddoio busnesau a chontractwyr lleol lle bynnag bosib. Mae hyn yn golygu bod cyfleoedd gwaith a phryniadau yn lleol, gyda'r buddion ariannol a chymdeithasol yn aros o fewn yr economi leol ac o fudd i gymunedau Caerfyrddin.</p> <p>Mae'r nifer o ddigwyddiadau a gyfeirir atynt uchod wedi'u cynllunio i helpu i ddod a phobl i'r dref a thrwy hynny cefnogi'r siopau a busnesau lleol. Yn ystod mis Rhagfyr 2019 fe wnaeth yr Ŵyl Aef ei ail ymweliad â Pharc Caerfyrddin ac mae hyn wedi sefydlu ei hun fel digwyddiad blynyddol eiconig yng ngorllewin Cymru, ac mae'n rhoi hwb economaidd enfawr i'r economi leol.</p>	<p>Cymru Ffyniannus</p>
	<p>6 Basgedi Crog</p>	<p>Mae'r Cyngor Tref yn darparu'r cynllun basgedi crog sydd yn bywiogi ymddangosiad esthetig y dref ac yn helpu i ddenu ymwelwyr a siopwyr i'r dref o dde orllewin Cymru a thu hwnt. Fe dyfodd nifer y siopau a busnesau sydd yn ymgysylltu â'r cynllun eto yn 2019.</p>	<p>Cymunedau Cydlynol</p>

Myfyrion ac Edrych Ymlaen

Cyfle i fyfyrion ar sut mae pethau yn mynd ac amlinellu blaenoriaethau'r dyfodol.

Beth sydd wedi gweithio'n dda i'r Cyngor?	Cwblhawyd nifer o brosiectau cyfalaf hir sefydlog yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys buddsoddiad sylweddol mewn offer chwarae i blant a phobl ifanc ym Mharc Caerfyrddin.
Beth sydd wedi bod yn rhwystr i'r Cyngor?	Ym mis Mawrth 2020 symudodd ffocws gwaith y Cyngor Tref yn ddramatig tuag at gefnogi pobl fregus yn ystod pandemig coronafeirws. Fe ddechreuwyd ystod o fentrau a phrosiectau yn gyflym, gan gynnwys ffocws cychwynnol ar roi cymorth i bobl fregus yn uniongyrchol trwy greu cynllun cymorth gwirfoddol - 'Gofal Cymunedol Caerfyrddin'. Mae'r gwaith hwn yn parhau ac yn fwy diweddar wedi ei ddilyn gan gam 2, lle mae'r Cyngor Tref wedi bod yn arwain gwaith gyda rhanddeiliaid ar Gynllun Adfer Tref Caerfyrddin mewn ymdrech i adfer normalrwydd economaidd cyn gynted â phosibl. Bydd y gwaith hwn yn cael adrodd ar yn fanylach yn 2021.
A oes yna unrhyw faterion y gall y BGC gefnogi cyflawni/cynnydd arnynt?	Parhau i hwyluso gweithio ar y cyd a rhannu ymarferion da rhwng aelodau.
Wrth edrych ymlaen at 2020-21 beth yw prif flaenoriaethau'r Cyngor?	Bydd y Cyngor yn ceisio cynyddu ei lefel o ymrwymiad gyda'r gymuned leol ac yn ffocysu ar ddefnyddio technoleg ddigidol i gyflawni amcanion allweddol. Bydd hefyd yn ceisio mynd ymlaen gyda throsglwyddo rhai cyfrifoldebau cynnal a chadw yng nghanol y dref o'r Cyngor Sir.

Adroddiad Dyletswydd Bioamrywiaeth i Lywodraeth Cymru

Deddf Amgylcheddol (Cymru) 2016 Rhan 1 – Adran 6 Adroddiad Dyletswydd Bioamrywiaeth a Hydwythdedd Ecosystemau

Mae'r Cyngor yn darparu ystod o wasanaethau lleol, ac yn rheoli nifer o fannau gwyrdd. Mae rhain yn cynnwys nifer o barciau cyhoeddus, ardaloedd chwarae a Mynwent Caerfyrddin.

- Cyhoeddodd y Cyngor 'Gynllun Gweithredu Datblygu Bioamrywiaeth ac Amgylchedd' ym mis Medi 2018 ac mae ganddo hefyd Is-bwyllgor y Cyngor -

Pwyllgor Sian Johnston - sydd yn delio'n benodol gyda materion sy'n ymwneud a'r amgylchedd a chynladwyedd. Mae'r pwyllgor hwn yn gwneud argymhellion i'r Cyngor Tref ar y materion hyn.

Atodiad A: 5 Ffordd o Weithio

Tymor Hir Pwysigrwydd cydbwysu anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu hefyd o gyrraedd anghenion tymor hir.
Atal Sut y gall gweithredu i atal problemau ddigwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus gyflawni eu hamcanion.
Integreiddio Ystyried sut y gall amcanion llesiant y cyrff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r amcanion llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.
Cydweithio Cydweithio gydag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) a all helpu'r corff gyflawni ei amcanion llesiant.
Cyfranogiad Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb yn cyflawni'r amcanion llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny yn adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei wasanaethu.

Atodiad B: Nodau Llesiant Cenedlaethol

Nod Cenedlaethol

Cymru Ffyniannus:

Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sydd yn cydnabod terfynau'r amgylchedd Byd-eang a thrwy hynny yn defnyddio adnoddau yn effeithol a chyfatebol, ac sydd yn datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sydd yn cynhyrchu cyfoeth ac yn darparu cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu pobl i fanteisio o'r cyfoeth a gynhyrchir trwy sicrhau gwaith gweddus.

Cymru Hydwyth:

Cenedl sydd yn cynnal a gwella amgylchedd bioamrywiol naturiol gydag ecosystemau gweithredu iach sydd yn cefnogi hydwythdedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r gallu i addasu i newid.

Cymru Iachach:

Cymdeithas lle mae lles ffisegol a meddyliol pobl yn cynyddu i'r eithaf a lle mae dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd iechyd yn y dyfodol iach yn cael eu deall.

Cymru Fwy Cyfartal:

Cymdeithas sydd yn galluogi pobl i gyflenwi eu potensial beth bynnag yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau.

Cymru o Gymunedau Cyfartal:

Cymunedau deniadol, ymarferol, diogel a gyda chysylltiadau da.

Cymru o Ddiwylliant Bywiog ac Iaith Gymraeg Ffyniannus:

Lle mae gennym lawer o gyfleodd i wneud gwahanol bethau a lle mae llawer o bobl yn siarad Gymraeg.

Cymru Gyfrifol Fyd-eang:

Lle rydym yn gofalu am yr Amgylchedd ac yn meddwl am bobl eraill o ledled y Byd.